



## Templed Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

<b>Teitl / Darn o waith:</b>	<b>Plant sy'n Derbyn Gofal - Cynlluniau Gostyngiad Disgwyliedig</b>
<b>Rhif SF / LF cysylltiedig (os yw'n berthnasol)</b>	MA-P-JM-2808-19
<b>Enw'r Swyddog:</b>	Martin Taylor/Alistair Davey
<b>Adran:</b>	Yr Is-adran Galluogi Pobl, SSID, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
<b>Dyddiad:</b>	Ionawr-Gorffennaf 2019
<b>Llofnod:</b>	

Byddwch cystal â chwblhau'r ffurflen hon a'i chadw ar gyfer eich cofnodion ar iShare. Efallai y gofynnir i chi ddangos y ddogfen hon yn ddiweddarach i brofi eich bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd o roi sylw dyledus i hawliau plant e.e. ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, i ddibenion monitro, neu fel gwybodaeth i'w hadrodd i'r Cynulliad.


Ar ôl ei gwblhau, dylech anfon copi o'r asesiad at Dîm Gweithredu'r Mesur at ddibenion monitro, gan ddefnyddio'r blwch postio pwrpasol [CRIA@cymru.gsi.gov.uk](mailto:CRIA@cymru.gsi.gov.uk)

Os nad yw swyddogion yn sicr ynghylch cwblhau asesiad neu beidio, dylent bob amser geisio cyngor gan Dîm Gweithredu'r Mesur trwy anfon unrhyw gwestiynau ymlaen i'n blwch postio [CRIA@cymru.gsi.gov.uk](mailto:CRIA@cymru.gsi.gov.uk)

Efallai y dymunwch groesgyfeirio gydag asesiadau effaith eraill a gyflawnwyd.

**Noder. Rhaid cyhoeddi pob asesiad a wneir yn ôl deddfwriaeth ynghyd â'r darn o waith perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'n rhaid i bob asesiad arall gael ei restru yng Nghylchlythyr Hawliau Plant Llywodraeth Cymru a rhaid iddo fod ar gael ar gais. Caiff Gweinidogion eu hannog, fodd bynnag, i gyhoeddi pob asesiad a gwblheir.**

# Chwe Cham at Sylw Dyledus



## Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

Efallai yr hoffech gynnwys:

- Disgrifiad byr o'r darn o waith
- Beth yw'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn?
- Pwy yw'r rhai y bwriedir iddynt elwa?
- A yw hi'n debygol y bydd y darn o waith yn effeithio'n benodol ar blant?
- Disgrifiad byr o'r darn o waith
- A fydd y gwaith yn cael effaith ar grŵp penodol o blant, os felly, disgrifiwch y grŵp yr effeithir arnynt?
- Nodwch yma ddolenni i unrhyw dystiolaeth gefnogol, data neu ymchwil sy'n cefnogi eich cais.

### Cynlluniau Gostyngiad Disgwyliedig

Gofynnwyd i awdurdodau lleol ddatblygu Cynlluniau Gostyngiad Disgwyliedig dros y tair blynedd nesaf yn ymwneud â'r plant sy'n derbyn gofal ganddynt.

Diogelwch sy'n cael blaenoriaeth wrth ymgymryd â'r gwaith hwn – mae Llywodraeth Cymru a'r Prif Weinidog yn glir nad oes unrhyw beth yn bwysicach na'r angen i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Nod y cynlluniau gostyngiadau disgwyliedig yw annog newid strategol tuag at atal, gyda chefnogaeth well er mwyn i blant allu aros gyda'u teuluoedd ac er mwyn i'r plant hynny sydd angen bod mewn gofal allu aros yn agosach at gartref.

### Cefndir

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu 34% yn y 15 mlynedd diwethaf. Ar 31 Mawrth 2018, roedd 6,405 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru.

Roedd Maniffesto Arweinyddiaeth 2018 y Prif Weinidog yn tynnu sylw at yr angen i fynd i'r afael â'r mater hwn fel maes blaenoriaeth. Mae e'n bendant bod gormod o blant yn cael eu symud oddi wrth eu teuluoedd a'u rhoi yn y system gofal. Mae'r Prif Weinidog wedi gosod y meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Gostwng nifer y plant mewn gofal;
- Gostwng nifer y plant a leolir y tu allan i'r sir;
- Gostwng nifer y plant a leolir y tu allan i Gymru; a,
- Gostwng nifer y plant sy'n cael eu symud oddi wrth rieni sydd ag anabledd dysgu.

Er mwyn llywio ein dull o ddatblygu cynlluniau gostyngiad disgwyliedig penodol ar gyfer pob

awdurdod lleol, sefydlwyd Grŵp Technegol yn gynharach yn 2019 o dan gadeiryddiaeth Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru. Mae cynrychiolaeth o CLILC, ADSS Cymru a'r Trydydd Sector ar y grŵp ac maent wedi cymryd rhan weithredol yn y gwaith o lunio ein dull gweithredu. Dyma restr lawn o'r aelodau:

Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio (SSID), Llywodraeth Cymru – Cadeirydd

Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Nigel Brown, Prif Weithredwr, CAF/CASS Cymru

Sue Cooper, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr/ADSS Cymru

Sarah Crawley, Barnardo's Cymru

Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr, Galluogi Pobl/SSID, Llywodraeth Cymru

Phil Hodgson, y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol

Y Cyngorydd Geraint Hopkins, Llefarydd ar Wasanaethau Cymdeithasol Plant, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Marian Hughes, Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Gwynedd

Andrew Jarrett, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot/ADSS Cymru

Natalie Avery, Pennaeth Cyfiawnder Teuluol, Gwella Canlyniadau i Blant, SSID, Llywodraeth Cymru

Henry Vaile, Uwch Reolwr Polisi Gwella Canlyniadau i Blant, SSID, Llywodraeth Cymru

Huw Gwyn Jones, Uwch Reolwr Polisi Gwella Canlyniadau i Blant, SSID, Llywodraeth Cymru

Anthony Maynard, Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Penfro

Chris Newbrook, Pennaeth Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, Is-adran Plant a Theuluoedd, Llywodraeth Cymru

Jonathan Scourfield, Cyngorydd Polisi Arbenigol ar Ofal Cymdeithasol

Bethan Sherwood, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ystadegau Poblogaeth, Llywodraeth Cymru

Catriona Williams, Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru

Erbyn mis Gorffennaf 2019, roedd y grŵp wedi cyfarfod bedair gwaith. Mae CLILC ac ADSS Cymru wedi croesawu ein dull gweithredu pwrpasol ac maent wedi ymrwymo i weithio gyda ni ar yr agenda hon.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol unigol i gyd-gynhyrchu'r dull gweithredu a'r templed adrodd i awdurdodau lleol, sy'n eu galluogi i nodi eu cynlluniau gostyngiad disgwylidig pwrpasol eu hunain yn unol â phoblogaeth a demograffeg yr ardal. Cyn yr ymweliadau, datblygwyd fframwaith trafod gan y Grŵp Technegol ac fe'i rhannwyd gydag awdurdodau lleol. Roedd yn nodi'r agenda a'r disgwyliadau ar gyfer yr ymweliadau ymlaen llaw. Yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2019, cynhaliwyd rhaglen o ymweliadau gyda phob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd y Tîm Ymgysylltu â Phlant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei arwain gan gadeirydd annibynnol, Phil Hodgson, ac yn cynnwys swyddogion, a'r nod oedd trafod sut y mae awdurdodau lleol yn rheoli eu gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, eu dull o ymwneud â risg a sut y maent yn cadw golwg ar y niferoedd sy'n dod i mewn i ofal a'r niferoedd sy'n gadael.

### Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant

Mae'r rhaglen waith Gwella Canlyniadau i Blant (IO4C) yn cael ei goruchwyllo gan y Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant, sy'n cael ei gadeirio gan David Melding, AC. Mae aelodau'r grŵp yn drawstoriad eang o bobl ac maent yn cynnwys uwch randdeiliaid o bob asiantaeth allweddol sy'n ymwneud â phlant sydd wedi profi gofal yng Nghymru.

Mae rhaglen waith Cam 3 IO4C wedi'i datblygu i barhau trwy gydol tymor y Cynulliad hwn. Mae hyn er mwyn cydnabod y gweithgarwch a wnaed ac a gwblhawyd dros y 18 mis diwethaf. Caiff ei lywio

gan y blaenoriaethau allweddol a nodwyd yn Ymchwiliad Gwerthfawrogiol ([https://llyw.cymru/grwp-cynghori-ar-wella-canlyniadau-i-blant?\\_ga=2.190899247.42060366.1565693945-1471361957.1563188408](https://llyw.cymru/grwp-cynghori-ar-wella-canlyniadau-i-blant?_ga=2.190899247.42060366.1565693945-1471361957.1563188408)) chwe awdurdod lleol, argymhellion yr Adolygiad o'r Argyfwng Gofal (<https://www.celcis.org/files/6415/2889/4967/CCR-final.pdf>) ac ymchwiliad parhaus y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i Blant a Phobl Ifanc sydd Wedi Bod mewn Gofal (<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=16183>) Mae rhaglen waith Cam 3 y IO4C yn cynnwys 12 maes gwaith allweddol, ar draws tair ffrwd waith.

Mae'r rhaglen wedi'i rhannu'n dri phrif faes allweddol ar gyfer gweithredu. Y cyntaf yw 'Gostwng yn ddiogel nifer y plant sydd angen gofal'.

Mae'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gostyngiad disgwylidig yn ategu ffocws parhaus y rhaglen waith Gwella Canlyniadau i Blant ar leihau'r angen am ofal a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant sydd wedi bod mewn gofal.

- **Beth yw'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn?**

Bydd y Cynlluniau Gostgyniad Disgwylidig yn para dros dair blynedd a bydd disgwyliadau i'w cyflawni ar ôl 12 mis, 24 mis a 36 mis. Cynhelir adolygiadau chwarterol a fydd yn nodi canlyniadau ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Mae Grŵp Monitro yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r elfen hon o'r broses a fydd yn cynnwys cynrychiolaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru, ADSS Cymru, Penaethiaid Gwasanaethau Plant, CLILC, CAF/CASS Cymru a chadeirydd annibynnol y Tîm Ymgysylltu â Phlant sy'n Derbyng Gofal a arweiniodd yr ymweliadau â'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

- **Pwy yw'r buddiolwyr a fwriedir?**

Plant a'u teuluoedd. Bydd ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol mwy effeithiol, ynghyd â mwy o ffocws ar ailuno plant yn ddiogel gyda'u rhieni, yn helpu i ostwng yn ddiogel nifer y plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal a lleihau'r amser y mae plant yn ei dreulio mewn gofal.

- **A yw hi'n debygol y bydd y darn o waith yn effeithio ar blant?**

Bydd y gwaith hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar blant gyda nod clir o alluogi mwy o blant i gael eu magu gan eu rhieni, lle bo hynny'n ddiogel.

- **A fydd y gwaith yn cael effaith ar grŵp penodol o blant? Os felly, disgrifiwch y grŵp yr effeithir arno.**

Nod y gwaith hwn yw cael effaith gadarnhaol ar yr holl blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal ac sydd angen gofal a chymorth. Bydd hefyd yn effeithio ar y plant hynny sy'n byw mewn teuluoedd ar ffiniau gofal.

Yn ogystal, bydd yn fanteisiol i rieni o garfanau lle mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod eu plant nhw'n fwy tebygol o gael eu rhoi mewn gofal. Mae'r rhain yn cynnwys pobl sy'n gadael gofal, rhieni ag anabledau dysgu a rhieni sydd eisoes â phlentyn yn derbyn gofal.

## Cam 2. Dadansoddi'r effaith

- Pa effeithiau cadarnhaol y bydd y darn o waith hwn yn ei gael ar blant, pobl ifanc neu eu teuluoedd?
- Beth yw'r effeithiau negyddol a pha fesurau cydbwysu y gall fod eu hangen i'w lliniaru hwy?
- Sut fyddwch chi'n gwybod os yw eich darn o waith yn llwyddiant?
- Ydych chi wedi ystyried y canlyniadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor?
- Ydych chi wedi datblygu fframwaith canlyniadau i fesur effaith?
- Oes angen ichi gyd-drafod â phlant a phobl ifanc a/neu rhanddeiliaid i geisio eu barn gan ddefnyddio

dulliau ymgynghori neu gyfranogi?

- Os mai ie oedd yr ateb i'r uchod, sut mae eu barn hwy wedi dylanwadu ar eich gwaith?
- Oes angen i chi baratoi fersiynau addas i blant o gynigion/ymgynghoriadau?
- A oes gan y darn o waith unrhyw gysylltiadau â chyflawni – prif amcanion [Strategaeth Tlodi Plant Cymru](#)?
- Os felly, sut, o bosib, fydd y gwaith hwn yn effeithio ar dlodi plant?

### **Effeithiau cadarnhaol**

Mae'r gwaith yn ymwneud â chynhyrchu canlyniadau cadarnhaol ac ansoddol o ran gostwng yn ddiogel nifer y plant sy'n derbyn gofal a sicrhau, drwy waith ataliol ac ymyrraeth gynnar, bod plant yn aros gyda'u rhieni neu'n cael eu hailuno â nhw. Effaith bellach fydd lleihau'r pwysau ar awdurdodau lleol yn y maes hwn, drwy ail-gydbwysu'r system o blaid gwasanaethau ataliol ac ymyrryd yn gynnar.

### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Mae egwyddorion sylfaenol Deddf 2014 yn tanategu'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu cynlluniau gostyngiadau disgwylidig -

- Llais a rheolaeth: Sicrhau bod gofal yn canolbwyntio ar y plentyn a darparu cefnogaeth er mwyn galluogi mwy o blant i gael eu magu gan eu rhieni lle bo hynny'n ddiogel ac yn briodol.
- Atal ac ymyrryd yn gynnar: Cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned i osgoi bod anghenion yn gwaethygu ac achosion penodol yn cyrraedd sefyllfa o argyfwng.
- Cydgynhyrchu: Gweithio gydag awdurdodau lleol fel eu bod yn datblygu eu Cynlluniau Gostyngiadau Disgwylidig eu hunain ac yn teimlo mai nhw sy'n berchen arnynt.
- Amlasiantaethol: Gwaith partneriaeth cryf rhwng yr holl asiantaethau a sefydliadau, gydag integreiddio yn brif sbardun ar gyfer newid.
- Pobl: Mae plant a'u teuluoedd yn ganolog i'r gwaith hwn.
- Llesiant: cefnogi pobl i wella eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. Mae 'llesiant' yn derm eang sy'n cael ei ddefnyddio ar draws sawl maes o fewn y Ddeddf. Mae'n cynnwys diogelu (atal ac amddiffyn rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod), ond mae hefyd yn berthnasol i lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol unigolyn.

### **Cyflawni a chysoni nodau 'Symud Cymru Ymlaen' a 'Ffyniant i Bawb'**

Mae'r gwaith hwn hefyd yn cyd-fynd ag ymrwymadau 'Symud Cymru Ymlaen' sy'n dweud y byddwn yn -

- Archwilio ffyrdd o sicrhau bod plant mewn gofal yn mwynhau'r un cyfleoedd mewn bywyd â phlant eraill a diwygio'r ffordd y gofelir amdanynt os bo angen.
- Gweithio i leihau defnydd diangen o ofal, gan ddatblygu ar waith y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd i gefnogi'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed yng Nghymru.

Mae ein strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb' hefyd yn nodi -

- Dylai fod gan blant mewn gofal le diogel i fyw, dylent gael addysg dda, cyswllt diogel â'u teuluoedd, a chael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Dylent fedru disgwyl i bobl wrando arnynt a dylent gael help llaw i feithrin perthynas gadarnhaol â phobl eraill. Mae angen inni sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael cymaint o gymorth â phosibl a'u bod yn cael yr un cymorth yn ystod eu blynyddoedd cynnar, a'r un cyfleoedd mewn bywyd, â phlant eraill.
- gwella cyrhaeddiad addysgol a chyfleoedd bywyd plant sydd mewn gofal, gan roi lle

canolog i'r plentyn, drwy sicrhau bod gwasanaethau addysg, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill yn cydweithio.

- cryfhau gwasanaethau ar ffiniau gofal er mwyn rhoi cymorth amserol i deuluoedd a lleihau'r niferoedd y mae angen darparu gofal ar eu cyfer a chynnig cymorth yn y cyfnod allweddol o newid ar ôl i blant sy'n gadael gofal gyrraedd 16 oed er mwyn iddynt fedru manteisio ar addysg bellach a dod o hyd i swyddi a thai.

### Cysondeb gyda'r rhaglen waith Gwella Canlyniadau ar gyfer Plant

Mae'r ymarfer hwn yn cyd-fynd â'r gweithgarwch sy'n parhau o dan y rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant a oruchwylir gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog, yn enwedig ffocws ffrwd waith 1 mewn perthynas ag atal ac ymyrryd yn gynnar a gostwng yn ddiogel yr angen am ofal.

Mae hyn oll yn dangos ein hymrwymiad cadarn i ail-gydbwysu'r system plant sy'n derbyn gofal fel y gellir darparu'r cymorth cywir i alluogi teuluoedd i gefnogi eu plant eu hunain a sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant hynny sy'n derbyn gofal.

### Consensws a chyfrifoldeb ar y cyd

Mae'n gyfrifoldeb ar y Llywodraeth, y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r gymuned ehangach i sicrhau bod y gofal a'r cymorth gorau sydd ar gael yn cael eu darparu i blant sy'n derbyn gofal, i'w galluogi i ffynnu mewn amgylchedd diogel a mwynhau'r un cyfleoedd ag y byddai unrhyw blentyn arall yn eu disgwyl. Ceir consensws hefyd y dylai plant gael cymorth i aros gyda'u teuluoedd biolegol ble bynnag fo hynny'n bosibl.

### Niferoedd cynyddol a phroffil y boblogaeth plant sy'n derbyn gofal

Mae ystadegau'n dangos bod 6,405 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru ar 31 Mawrth 2018. Yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu 34%. Mewn adroddiad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ym mis Mai 2019, nodir na ellir priodoli'r cynnydd hwn i gyntaf yn unig.

Cyfradd y plant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o boblogaeth yng Nghymru yw 102. Fodd bynnag mae'r gyfradd yn amrywio'n sylweddol ar draws awdurdodau Cymru, o 50 fesul 10,000 o boblogaeth ar yr isaf i 191 fesul 10,000 o boblogaeth ar yr uchaf. Er bod amddifadedd yn ffactor pwysig yn yr amrywiad hwn, ceir amrywiadau hefyd o ran arferion.

Caiff bron 25% o blant sy'n derbyn gofal eu lleoli y tu allan i'r sir a lleolir 5% y tu allan i Gymru. Er bod rhesymau da yn aml dros leoli'r plant hyn y tu allan i'r ardal, er enghraifft mewn lleoliadau arbenigol neu gyda theulu neu ffrindiau ehangach, rydym am ystyried a ellid lleoli cyfran o'r plant hyn mewn modd mwy priodol yn nes at eu cartrefi.

### Trafodaethau pwrpasol gydag awdurdodau lleol

Ym misoedd Ebrill a Mai 2019, ymwelodd y Tîm Ymgysylltu â Phlant sy'n Derbyn Gofal â phob awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd maint y gwaith a oedd yn cael ei wneud i gefnogi plant a theuluoedd a cheisio osgoi'r angen am ymyrraeth statudol wedi creu cryn argraff arnynt. Cynhaliwyd trafodaethau gydag awdurdodau lleol a daeth nifer dda o bobl i gymryd rhan ynddynt ac roeddent yn croesawu'r cyfle.

Roedd y sgysiau'n canolbwyntio ar yr angen am gyfrifoldeb ar y cyd dros wasanaethau plant ar lefel gorfforaethol er mwyn gwella canlyniadau i blant. Anogwyd awdurdodau lleol i ddangos sut y maent yn rheoli busnes gwasanaethau plant, gan gynnwys gwybodaeth am y fframwaith ymarfer y maent yn ei weithredu, data am y gwasanaethau a ddarperir i blant a theuluoedd, monitro perfformiad ac olrhain.

Mae awdurdodau lleol wedi'u hannog i osod targedau i'w cyflawni a bod yn uchelgeisiol wrth ddatblygu eu Cynlluniau Gostyngiad Disgwyliedig. Mae angen gweithredu i ail-gydbwysu'r system, gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn cefnogi buddiannau gorau plant a'u teuluoedd.

Mae awdurdodau lleol wedi'u sicrhau **nad** oes unrhyw system gosbi'n cael ei hystyried.

### Canlyniadau peidio â gweithredu

Mae canlyniadau amlwg o beidio â gweithredu. Er na fydd ystadegau swyddogol ar nifer y plant sy'n derbyn gofal yn 2018/19 ar gael tan fis Tachwedd 2019, nododd awdurdodau lleol ffigurau cynnar (mis Mawrth 2019) a oedd yn dangos cynnydd posibl o tua 470 yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, a fyddai'n golygu cyfradd o 109 fesul 10,000 o bobl. O gymharu'r sefyllfa â gwledydd eraill y DU, yng Ngogledd Iwerddon, er enghraifft, mae'r gyfradd yn llawer is, sef 71 y 10,000, er bod lefelau amddifadedd yn uwch yn gyffredinol yno nag yng Nghymru. Yn seiliedig ar dueddiadau presennol, pe na baem yn cymryd camau i weithredu, gallai'r niferoedd barhau i gynyddu 6% y flwyddyn ar gyfartaledd.

Bydd y gwaith o fonitro a gwerthuso camau gweithredu yn para dros dair blynedd, yn chwarterol ac ar ddiwedd pob blwyddyn.

Mae awdurdodau lleol eu hunain wedi cydnabod y pwysau ychwanegol sy'n dod wrth i niferoedd cynyddol o blant ddod i mewn i'r system ofal, yn enwedig mewn tystiolaeth i ymchwiliad parhaus y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i Blant a Phobl Ifanc sydd Wedi Bod mewn Gofal

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglssueHistoryHome.aspx?Ild=16183> Mae Llywydd Adran Deuluol yr Uchel Lys, Syr Andrew McFarlane, wedi siarad mewn termau tebyg: <https://www.theguardian.com/law/2018/jun/13/legal-system-of-child-protection-is-in-Crisis-says-senior-Judge> ac mae'r Adolygiad o'r Argyfwng Gofal (dolen yn gynharach) yn bendant ynghylch effaith a phwysau'r niferoedd cynyddol.

### Rôl sefydliadau partner

Mae awdurdodau lleol wedi tynnu sylw'n gyson at y ffaith bod gan y Farnwriaeth, CAF/CASS Cymru a Byrddau Iechyd Lleol hefyd rôl allweddol o ran cefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynlluniau Gostyngiadau Disgwyliedig.

Ym mis Hydref 2019, rydym yn trefnu digwyddiad Dysgu a Chymorth Cymheiriaid cenedlaethol er mwyn rhannu negeseuon allweddol ac arfer gorau o'r gwaith hwn. Mae'r digwyddiad hwn yn cael ei gyd-gynhyrchu gan swyddogion Llywodraeth Cymru, ADSS Cymru, Penaethiaid Gwasanaethau Plant, CLILC, CAF/CASS Cymru.

### Y berthynas rhwng awdurdodau lleol a'r Farnwriaeth

Drwy'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar y Cynlluniau Gostyngiadau Disgwyliedig, disgwylir i berthynas gryfach rhwng awdurdodau lleol a'r Farnwriaeth ddatblygu. Yn benodol, mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch Gorchmynion Gofal diogel, y defnydd o Orchmynion Goruchwyllo, Gorchmynion Lleoli gyda Rhiant a'r 'egwyddor dim gorchmyn'.

### Datblygu dull gweithredu system gyfan

Bydd gwaith y Cynlluniau Gostyngiadau Disgwyliedig yn cefnogi dull gweithredu system gyfan ar gyfer teuluoedd a phlant sy'n derbyn gofal. Bydd y berthynas o gydweithio parhaus rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaethau addysg, tai ac iechyd, yn enwedig o ran darparu llety priodol, addysg dda a chymorth therapiwtig, yn helpu i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau priodol i blant sy'n derbyn gofal a/neu sydd ar ffiniau gofal. Rheolir y berthynas weithio ar y cyd hon ar lefel Llywodraeth Cymru drwy'r Grŵp Cyngori'r Gweinidog IO4C.

### Gwneud penderfyniadau gwell

Bydd Cynlluniau Gostyngiadau Disgwyliedig yn helpu i wella cadernid y broses o wneud penderfyniadau, cefnogi'r broses o ddatblygu fframweithiau ymarfer a chadw ffocws datblygiadau ar sicrhau bod y gweithlu priodol ar waith.

### Effeithiau negyddol posibl

Os na chaiff y gwaith hwn ei wneud, mae perygl na fydd rhai plant yn cael cefnogaeth i fyw gyda'u teuluoedd lle y dylai hyn fod yn bosibl, ac y bydd arferion nad sy'n rhoi buddiannau'r plant wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau yn parhau. Mae risg hefyd y bydd rhai plant y gellid bod wedi'u lleoli yn nes at y cartref yn parhau i gael eu lleoli y tu allan i'r sir, neu allan o'r wlad.

Mae rhai wedi dweud y gallai'r gwaith o wneud Cynlluniau Gostyngiad Disgwyliedig fod yn gymhelliant gwrthnysig i awdurdodau lleol: a'u bod nhw'n canolbwyntio ar leihau niferoedd heb roi ystyriaeth lawn i ba un a yw'n ddiogel i blentyn aros gartref. Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i newid y cydbwysedd buddsoddi tuag at wasanaethau ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol, yn ogystal â'r ymdrechion y mae awdurdodau lleol yn gwneud i gyflawni hynny, yn golygu ei bod hi'n annhebygol y bydd sefyllfa o'r fath yn codi.

### Canlyniadau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir

Bydd y Cynlluniau Gostyngiad Disgwyliedig yn para dros dair blynedd a bydd disgwyliadau i'w cyflawni ar ôl 12 mis, 24 mis a 36 mis. Cynhelir adolygiadau chwarterol a fydd yn nodi canlyniadau ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Mae Grŵp Monitro yn cael ei sefydlu i gadw golwg ar yr elfen hon o'r broses a bydd yn cynnwys cynrychiolaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru, ADSS Cymru, Penaethiaid Gwasanaethau Plant, CLILC, CAF/CASS Cymru a chadeirydd annibynnol y Tîm Ymgysylltu â Phlant sy'n Derbyn Gofal a oedd yn gyfrifol am arwain yr ymweliadau â'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

### Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a/neu randdeiliaid

Plant yng Nghymru yw un o'r partneriaid sy'n cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Grŵp Technegol sy'n darparu adborth ar ein dull gweithredu. Bydd Plant yng Nghymru hefyd yn aelod o'r grŵp monitro ar ôl i'r Cynlluniau Gostyngiad Disgwyliedig gael eu cwblhau.

Yn ogystal, rydym wedi adrodd am y gwaith hwn i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant ac wedi gofyn am adborth. Mae Dirprwy Gadeirydd y Grŵp yn un sydd wedi gadael gofal ei hun ac mae'r aelodau'n cynnwys Comisiynydd Plant Cymru, Voices from Care a Plant yng Nghymru.

### **Cysylltiad â thlodi plant**

Mae'r polisi hwn yn berthnasol dros ben wrth gefnogi teuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Mae plant yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru llawer yn fwy tebygol o fod mewn gofal na phlant o'r cymunedau lleiaf difreintiedig. Yn seiliedig ar ddata 2015, canfu adroddiad gan Brosiect Anghydraddoldebau Llesiant Plant bod plant sy'n byw yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig 13 gwaith yn fwy tebygol o orfod derbyn gofal a byw i ffwrdd oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau (hy nid gofal gan berthynas na'u lleoli gyda'u rhieni) na phlant sy'n byw yn y 10% o ardaloedd lleiaf difreintiedig. Felly bydd canolbwyntio ar gefnogi mwy o blant i aros gyda'u teuluoedd yn effeithio ar blant sy'n byw mewn tlodi yn fwy na phlant eraill.

## **Cam 3. Sut mae'r darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?**

Gan ddibynnu ar effaith eich darn o waith, defnyddiwch eich doethineb i farnu:

- Pa rai o erthyglau'r CCUHP sydd **fwyaf** perthnasol i'r darn o waith? Ystyriwch yr erthyglau y mae eich



darn o waith yn effeithio arnynt. <http://www.hawliauplant.cymru/images/PDF/CCUHPArticles-CY.pdf>

- Eglurwch pam bod yr erthyglau hyn yn berthnasol a sut mae'r darn o waith yn eu hyrwyddo.
- Sut ydych chi'n gwella'r ffordd y mae plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar eu hawliau?
- Pa agweddau o fywydau plant y bydd y cynnig yn effeithio arnynt?
- Beth yw'r prif faterion y dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ganolbwyntio arnynt?
- A yw'r darn o waith yn helpu sicrhau hynny ag sy'n bosibl o ganlyniadau o fewn erthyglau'r CCUHP?
- Os nad ydyw, a oes unrhyw ddewisiadau eraill i'r darn presennol o waith wedi cael eu hystyried?
- Cynhwyswch unrhyw dystiolaeth o'r ymgynghoriad(au), os yw'n briodol, yma

### **Erthygl 1 - Mae holl hawliau'r Confensiwn yn berthnasol i bawb o dan 18 oed**

Bydd y Cynlluniau Gostyngiad Disgwyliedig yn berthnasol i bob plentyn o dan 18 oed.

### **Erthygl 2 - Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bob plentyn beth bynnag fo'i ethnigrwydd, ei rywedd, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud, ni waeth o ba fath o deulu y daw.**

Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio'n llwyr ar gefnogi teuluoedd er mwyn i blant barhau i aros gyda'u teuluoedd a ffynnu a chael eu hailuno â'u teuluoedd os ydynt yn derbyn gofal, cyn belled a bo hynny'n ddiogel ac yn briodol.

### **Erthygl 3 - Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn.**

### **Erthygl 6 -Mae gan bob plentyn yr hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.**

### **Erthygl 21 - Pan fo plant yn cael eu mabwysiadu, dylid rhoi blaenoriaeth i'r hyn sydd orau iddyn nhw. Dylai'r un rheolau fod yn gymwys waeth a yw'r plant yn cael eu mabwysiadu yn y wlad lle cawsant eu geni neu yn mynd i fyw mewn gwlad arall.**

### **Erthygl 23 - Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd dderbyn gofal a chymorth arbennig fel y gallant fyw bywydau llawn ac annibynnol.**

### **Erthygl 30 - Mae gan blant yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, waeth a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif pobl y wlad ai peidio.**

### **Erthygl 34 - Dylai'r Llywodraeth ddiogelu plant rhag camdriniaeth rywiol.**

### **Erthygl 36 - Dylai plant gael eu diogelu rhag gweithgareddau a allai amharu ar eu datblygiad.**

### **Erthygl 39 - Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin dderbyn cymorth arbennig i adfer eu hunan-barch.**

Mae llwyddiant y gwaith hwn yn dibynnu ar ddull system gyfan, ac mae angen i lywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd, y trydydd sector a'r Farnwriaeth weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu diogelu - boed hwy'n blant sy'n derbyn gofal neu'n blant ar ffiniau gofal. Er enghraifft, mewn perthynas â'r llety cywir, gwasanaethau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn, addysg o ansawdd da, cymorth therapiwtig a, hyd y gellir, yn unol ag iaith, diwylliant ac arferion eu teuluoedd.

Nodwedd greiddiol y gwaith hwn yw'r ffaith mai diogelwch yw'r brif flaenoriaeth. Nid oes dim yn bwysicach na'r angen i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

### **Erthygl 9 - Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni oni bai bod hynny er lles y plentyn,**

**er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu'n esgeuluso plentyn. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, oni bai bod posibilrwydd i hynny frifo'r plentyn.**

Mae'r gwaith hwn yn ymwneud â darparu canlyniadau o ansawdd uchel i blant a sicrhau y gall plant aros gyda'u teuluoedd neu gael eu hailuno'n ddiogel gyda'u rhieni drwy ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol effeithiol. Hefyd, pan fo angen i blant dderbyn gofal, dylent, lle y bo'n briodol, fyw yn agos at eu teuluoedd.

**Erthygl 12 - Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyh nhw, ac i'w safbwyntiau gael eu hystyried.**

**Erthygl 20 - Mae gan blant na all eu teuluoedd ofalu amdanynt yr hawl i dderbyn gofal priodol gan bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith.**

Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar alluogi mwy o blant i gael eu magu gan eu rhieni, ble bynnag fo hynny'n ddiogel, a galluogi llais a rheolaeth i blant, gan eu rhoi wrth wraidd eu gofal a'u cymorth a, chyn belled ag y bo modd, yn unol ag iaith, diwylliant ac arferion eu teuluoedd. Pan fo angen i blant dderbyn gofal, dylent fod yn gallu byw yn eu hardaloedd eu hunain yn y rhan fwyaf o achosion.

Bydd y gwaith yn helpu i wneud hyn drwy wella cadernid y broses o wneud penderfyniadau, cefnogi'r broses o ddatblygu fframweithiau ymarfer a chanolbwyntio datblygiadau ar sicrhau bod gweithlu sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol ar waith.

**Erthygl 18 - Mae'r ddau riant yn rhannu cyfrifoldeb am fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i'r plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni drwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.**

Mae'r gwaith hwn yn ymwneud â sicrhau bod plant yn cael aros gyda'u rhieni neu'n cael eu hailuno gyda nhw ble bynnag fo hynny'n ddiogel ac yn briodol.

**Erthygl 19 - Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn derbyn y gofal priodol, a'u diogelu rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hôl.**

Nodwedd greiddiol y gwaith hwn yw'r ffaith mai diogelwch yw'r flaenoriaeth gyntaf. Nid oes dim yn bwysicach na'r angen i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

**Erthygl 25 - Mae gan blant sy'n derbyn gofal gan eu hawdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni hawl i gael adolygiad rheolaidd o'u trefniadau gofal.**

Un o nodau allweddol y gwaith hwn yw bod awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar ailuno plant gyda'u rhieni, ble bynnag fo hynny'n ddiogel ac yn briodol, a chymryd camau i helpu hyn i ddigwydd yn ystod amser plant mewn gofal. Mae'r prosesau adolygu cynlluniau gofal wedi'u cynllunio i gefnogi hyn. Dylent hefyd fod yn agos at gartref, yn y rhan fwyaf o achosion.

**Erthygl 26 - Dylai'r Llywodraeth ddarparu arian ychwanegol ar gyfer plant teuluoedd mewn angen.**

Ochr yn ochr â'r Cynlluniau Gostyngiad Disgwyliedig, mae £30m ychwanegol wedi ei glustnodi ar gyfer y Gronfa Gofal Integredig sydd ar gael i Fyrddau Partneriaethau Rhanbarthol yn 2019-20. Bydd hyn yn dod â chyfanswm lefel y buddsoddiad refeniw yn y gronfa hon i £89m.

Mae £15m o'r arian ychwanegol hwn ar gyfer darparu mentrau ymyrraeth gynnar i blant sydd ar ffiniau gofal. Bydd yr arian yn helpu i fynd i'r afael â rhai o bryderon Comisiynydd Plant Cymru a Phenaeithiaid Gwasanaethau Plant ynghylch yr angen am ffocws cryfach ar yr agenda plant ar lefel

y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae £9m o gyllid rheolaidd wedi'i gynnwys yng Ngrant Cynnal Refeniw awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau ar ffiniau gofal, megis Reflect a'r Gronfa Dydd Gŵyl Dewi sy'n benodol ar gyfer pobl sy'n gadael gofal. Mae arian grant hefyd yn cael ei ddarparu i sefydliadau yn y trydydd sector fel y Rhwydwaith Maethu, Plant yng Nghymru a Voices from Care i gefnogi eu gwaith gyda phlant sy'n derbyn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc sydd ar ffiniau gofal.

**Erthygl 27- Mae gan blant yr hawl i safon byw digon da i fodloni eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu teuluoedd na allant fforddio i ddarparu hyn.**

Mae'r gwaith hwn yn ymwneud â sicrhau bod plant yn cael aros gyda'u rhieni neu'n cael eu hailuno gyda nhw ble bynnag fo hynny'n ddiogel ac yn briodol. Ni ddylai plant fod yn mynd i ofal oherwydd tlodi.

#### **Cam 4. Cyngori'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog**

Wrth roi cyngor a gwneud argymhellion i'r Gweinidog, ystyriwch:

- Amlinellwch y ffyrdd y mae'r darn o waith yn helpu sicrhau hynny ag sy'n bosibl o ganlyniadau o fewn erthyglau'r CCUHP.
- A oes unrhyw wrthdaro ag erthyglau'r CCUHP o fewn y cynnig wedi cael eu darganfod?
- Amlinellwch yr effaith ehangach: a yw'r cynnig yn effeithio ar unrhyw feysydd polisi eraill?
- O safbwynt unrhyw effeithiau negyddol a achosir gan y cynnig; a all Gweinidogion ddangos eu bod wedi dyrannu cymaint o adnoddau ag sy'n bosibl?
- Pa ddewisiadau a chyngor y dylid eu rhoi i Weinidogion ar y cynnig?
- O safbwynt eich cyngor i symud ymlaen neu beidio gyda'r darn o waith, a oes unrhyw gyngor pellach y dylech ei roi i'r Gweinidog?
- Sut mae ymgymryd â'r asesiad hwn wedi dylanwadu ar eich cyngor i'r Gweinidog.
- A yw'n briodol cyngori'r Gweinidog i ailystyried y penderfyniad yn y dyfodol, yn enwedig gan gadw mewn cof yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd a pha adnoddau a all fod ar gael yn y dyfodol?
- Ydych chi wedi rhoi cyngor i Weinidogion ar LF/SF ac wedi cadarnhau ystyried yr CCUHP yn y paragraff perthnasol h.y. cydymffurfiant statudol?
- A yw'r cyngor wedi'i gefnogi gan esboniad o'r materion allweddol?

Gydol y rhaglen waith hon, gofynnwyd am gytundeb Gweinidogol ac fe'i derbyniwyd. Ar bob achlysur, mae'r Cyngor i'r Gweinidog lechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadarnhau bod yr asesiad hwn wrthi'n cael ei ddatblygu.

O ystyried erthyglau'r CCUHP, at ei gilydd, credwn fod rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi effaith lawn i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn.

Ni nodwyd unrhyw wrthdaro ag erthyglau CCUHP.

#### **Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad**

**Fersiwn derfynol i gael ei chadw ar i-share**

Dylid cadw tystiolaeth sy'n cadarnhau:

- Sut y cydymffurfiwyd â'r ddyletswydd (**Camau 1-3 uchod**)
- Y dadansoddiad a wnaed (**Camau 1-3 uchod**)
- Y dewisiadau a ddatblygwyd ac a archwiliwyd (**Camau 1- 3 uchod**)
- Sut mae'r canfyddiadau / canlyniadau wedi cael eu cyhoeddi? (**Cam 4 uchod**)

- 'Dweud y stori' o sut y gwnaed yr asesiad a'r canlyniadau (**Cam 4 uchod**)
- Cynhwyswch unrhyw hyperddolenni i wybodaeth gefndir ychwanegol allai fod yn berthnasol
- Mae'n rhaid i'r holl asesiadau yr ymgymerir â hwy ar ddeddfwriaeth gael eu cyhoeddi ynghyd â'r darn perthnasol o waith ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'n rhaid i'r holl asesiadau eraill gael eu rhestru yng Nghylchlythyr Hawliau Plant Llywodraeth Cymru a bod ar gael o wneud cais amdanyn nhw. Caiff Gweinidogion eu hannog, fodd bynnag, i gyhoeddi pob asesiad a gwblheir.

Mae'r dystiolaeth a ddarperir yng nghanau 1-3 uchod yn rhoi mwy o fanylion ar y ffordd yr aethpwyd i'r afael â hawliau plant a phobl ifanc.

Nod cyffredinol Rhan 6 Rheoliadau o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Cod Ymarfer yw diogelu a hyrwyddo llesiant plant sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu lletya a'r rhai sy'n gadael gofal; cynnal y plentyn o fewn y teulu lle mae'n ddiogel gwneud hynny; ac i alluogi pob plentyn neu berson ifanc i ddod dros niwed yn y gorffennol a chael adferiad. Mae hefyd yn anelu at hyrwyddo cydnerthedd a chyflawni canlyniadau llesiant personol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal hyb ar-lein o adnoddau i helpu ymarferwyr i gyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau [cymdeithasol: https://socialcare.wales/hub/sswbact](https://socialcare.wales/hub/sswbact)

### Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

Wrth adolygu'r darn o waith, ystyriwch unrhyw fonitro, gwerthuso neu gasglu data sydd wedi cael ei wneud:

- A yw eich darn o waith wedi cael yr effaith a fwriadwyd fel y nodir yng Ngham 2?
- Ydych chi wedi cyd-drafod â rhanddeiliaid i drafod sut mae'r polisi neu arfer yn gweithio?
- Os nad ydych, oes angen newidiadau.
- Nodwch lle gellir gwneud gwelliannau i leihau unrhyw effaith negyddol.
- Nodwch unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo hawliau plant, gan gadw mewn cof unrhyw adnoddau ychwanegol a all fod ar gael ar hyn o bryd.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys darpariaethau i ganiatáu i Weinidogion fonitro swyddogaethau'r Ddeddf a gyflawnir gan awdurdodau lleol a chyrrff eraill. Gall Gweinidogion ei gwneud yn ofynnol i'r cyrrff hyn adrodd ar eu dyletswyddau wrth weithredu'r ddeddfwriaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad o Ddeddf 2014 er mwyn gallu ystyried effaith y ddeddfwriaeth newydd. Mae'r gwerthusiad hwnnw bellach ar y gweill.

Fel y nodwyd uchod, mae'r gwaith hwn wedi cael ei rannu â Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant, sydd ag aelodaeth eang yn cynnwys uwch-randdeiliaid o'r holl asiantaethau allweddol sy'n ymwneud â phlant sydd wedi profi gofal yng Nghymru, a byddwn yn parhau i drafod gyda'r Grŵp hwn.

Bydd swyddogion yn parhau i fonitro effaith y ddeddfwriaeth mewn perthynas â CCUHP.

### Cyllidebau

**A oes unrhyw ddyraniadau fel rhan o gyllidebau sy'n gysylltiedig â'r darn hwn o waith?**

**Na**

**Gallwch nodi faint o'r cyllid hwn a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer plant a phobl ifanc?**

Mae'n bwysig, lle gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle gwnaed dyraniadau ychwanegol neu arbedion, fod hyn wedi cael ei asesu a'i brofi fel rhan o'r broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

**A oes yna wariant ychwanegol wedi cael ei nodi er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyfrannu at y darn o waith ac yn cael cyfle i ddweud eu dweud? Os oes, faint?**

Rhowch unrhyw fanylion:

### Monitro ac Adolygu

**A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?**

**Nac oes**

**Os yw'n berthnasol: nodwch y dyddiad adolygu**

**AMHERTHNASOL**

Anfonwch gopi o'r asesiad hwn at [CRIA@wales.gsi.gov.uk](mailto:CRIA@wales.gsi.gov.uk) at ddibenion monitro

**Gweler y dudalen  
nesaf am Restr Gwyno  
o erthyglau CCUHP yn  
Saesneg**



# THE UNITED NATIONS CONVENTION ON THE RIGHTS OF THE CHILD

[www.uncrcletsgetitright.co.uk](http://www.uncrcletsgetitright.co.uk)

The United Nations Convention on the Rights of the Child is an international agreement that protects the human rights of the children under the age of 18. On 16 December 1991, the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland formally agreed to make sure that every child in the UK has all the rights as listed in the convention. The Welsh Government has shown its commitment to the convention by adopting it as the basis for policy making for children in Wales.

Altogether there are 54 articles in the convention. Articles 43-54 are about how adults and governments should work together to make sure all children are entitled to their rights. The information contained here is about articles 1-42 which set out how children should be treated.



**Llywodraeth Cymru  
Welsh Government**

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## Article 1

Everyone under 18 years of age has all the rights in this Convention.

## Article 2

The Convention applies to everyone whatever their race, religion, abilities, whatever they think or say and whatever type of family they come from.

## Article 3

All organisations concerned with children should work towards what is best for each child.

## Article 4

Governments should make these rights available to children.

## Article 5

Governments should respect the rights and responsibilities of families to direct and guide their children so that, as they grow, they learn to use their rights properly.

## Article 6

All children have the right of life. Governments should ensure that children survive and develop healthily.

## Article 7

All children have the right to a legally registered name, the right to a nationality and the right to know and, as far as possible, to be cared for by their parents.

## Article 8

Governments should respect children's right to a name, a nationality and family ties.

## Article 9

Children should not be separated from their parents unless it is for their own good, for example if a parent is mistreating or neglecting a child. Children whose parents have separated have the right to stay in contact with both parents, unless this might hurt the child.

## Article 10

Families who live in different countries should be allowed to move between those countries so that parents and children can stay in contact or get back together as a family.

## Article 11

Governments should take steps to stop children being taken out of their own country illegally.

## Article 12

Children have the right to say what they think should happen, when adults are making

decisions that affect them, and to have their opinions taken into account.

## Article 13

Children have the right to get and to share information as long as the information is not damaging to them or to others.

## Article 14

Children have the right to think and believe what they want and to practise their religion, as long as they are not stopping other people from enjoying their rights. Parents should guide their children on these matters.

## Article 15

Children have the right to meet together and to join groups and organisations, as long as this does not stop other people from enjoying their rights.

## Article 16

Children have a right to privacy. The law should protect them from attacks against their way of life, their good name, their families and their homes.

## Article 17

Children have the right to reliable information from the mass media. Television, radio and newspapers should provide information that children can understand, and should not promote materials that could harm children.

## Article 18

Both parents share responsibility for bringing up their children, and should always consider what is best for each child. Governments should help parents by providing services to support them, especially if both parents work.

## Article 19

Governments should ensure that children are properly cared for, and protect them from violence, abuse and neglect by their parents or anyone else who looks after them.

## Article 20

Children who cannot be looked after by their own family must be looked after properly, by people who respect their religion, culture and language.

## Article 21

When children are adopted the first concern must be what is best for them. The same rules should apply whether the children are adopted in the country where they were born or taken to live in another country.

## Article 22

Children who come into a country as refugees should have the same rights as children born in that country.

## Article 23

Children who have any kind of disability should have special care and support so that they can lead full and independent lives.

## Article 24

Children have the right to good quality health care and to clean water, nutritious food and a clean environment so that they will stay healthy. Rich countries should help poorer countries achieve this.

## Article 25

Children who are looked after by their local authority rather than their parents should have their situation reviewed regularly.

## Article 26

The Government should provide extra money for the children of families in need.

## Article 27

Children have a right to a standard of living that is good enough to meet their physical and mental needs. The Government should help families who cannot afford to provide this.

## Article 28

Children have a right to an education. Discipline in schools should respect children's human dignity. Primary education should be free. Wealthy countries should help poorer countries achieve this.

## Article 29

Education should develop each child's personality and talents to the full. It should encourage children to respect their parents, and their own and other cultures.

## Article 30

Children have a right to learn and use the language and customs of their families, whether these are shared by the majority of people in the country or not.

## Article 31

All children have a right to relax and play, and to join in a wide range of activities.

## Article 32

The Government should protect children from work that is dangerous or might harm their health or their education.

## Article 33

The Government should provide ways of protecting children from dangerous drugs.

## Article 34

The Government should protect children from sexual abuse.

## Article 35

The Government should make sure that children are not abducted or sold.

## Article 36

Children should be protected from any activities that could harm their development.

## Article 37

Children who break the law should not be treated cruelly. They should not be put in prison with adults and should be able to keep in contact with their families.

## Article 38

Governments should not allow children under 15 to join the army. Children in war zones should receive special protection.

## Article 39

Children who have been neglected or abused should receive special help to restore their self respect.

## Article 40

Children who are accused of breaking the law should receive legal help. Prison sentences for children should only be used for the most serious offences.

## Article 41

If the laws of a particular country protect children better than the articles of the Convention, then those laws should stay.

## Article 42

The Government should make the Convention known to all parents and children.

For further information on the United Nations Convention on the Rights of the Child please visit: The Welsh Government's UNCRC Website: [www.uncrcletsgetitright.co.uk/](http://www.uncrcletsgetitright.co.uk/)

Cic - The National Information and Advice Service for Young People [www.ciconline.co.uk/news/](http://www.ciconline.co.uk/news/)

